

PWYLLGOR CRAFFU STRYDLUN A PHEIRIANNEG

(Committee Rooms A/B - Neath Civic Centre)

Aelodau sy'n Bresennol:

Dydd Gwener, 17 Rhagfyr 2021

Cadeirydd: **Cynghorydd S.M.Penry**

Is-gadeirydd: **Cynghorydd R.W.Wood**

Cynghorwyr: A.R.Aubrey, C.Galsworthy, D.Keogh, R.Davies
a/ac S.Jones

**Swyddogion sy'n
Bresennol:** D.Griffiths, M.Roberts, C.John a/ac T.Davies

**Gwahoddedigion y
Cabinet:** Cynghorwyr M.Harvey a/ac A.Wingrave

1. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfodydd blaenorol fel y nodir isod:

- 24 Medi 2021
- 5 Tachwedd 2021

2. CRAFFU CYN PENDERFYNU

Craffodd y Pwyllgor ar yr eitemau canlynol ar agenda Bwrdd y Cabinet:

Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2021/2022 - Perfformiad
Chwarter 2 (1 Ebrill 2021 - 30 Medi 2021)

Derbyniodd yr aelodau ddiweddariad ar ddata rheoli perfformiad chwarter 2 ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2021 i 30 Medi 2021 ar gyfer y Strydlun a Pheirianneg, fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Holodd yr Aelodau ynghylch tynhau'r cyfyngiadau ynghylch gwastraff rhyngwladol a holwyd a fyddai hyn yn cael effaith bosib ar y cyngor.

Esboniodd swyddogion ein bod ar hyn o bryd yn gwasgaru'n holl wastraff o fewn y DU ac felly ni fyddem yn mynd i unrhyw gostau rhyngwladol.

Cafwyd trafodaethau ynghylch elfen Canmoliaeth a Chwynion yr adroddiad. Roedd yr aelodau'n gyntaf yn falch o weld cynnydd yn y ganmoliaeth a dderbyniwyd yn 21/22. Fodd bynnag, cwestiynodd yr aelodau anghywirdeb yn yr adroddiad ynghylch y ffigurau canmoliaeth ar gyfer 2020/21. Mynegodd yr Aelodau eu siom hefyd wrth gofnodi'r ffigurau cwynion. Eglurodd y swyddogion y byddai'r aelod hwnnw'n cael dadansoddiad o'r holl ffigurau yn yr adroddiad sicrhau ansawdd a fyddai'n cael ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor Strydlun a Pheirianeg yn y dyfodol.

Amlygodd yr aelodau bwysigrwydd ailgylchu plastigion ac a oedd unrhyw bosibiliadau o addysgu ymhellach ar gynyddu ailgylchu. Tynnodd swyddogion sylw'r aelodau at y dadansoddiadau sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd o wastraff cartrefi a fyddai'n helpu i ddarparu data ar y mathau o wastraff sy'n cael/nad ydynt yn cael eu hailgylchu. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith bod Castell-nedd Port Talbot wedi dod yn 7fed yng Nghymru allan o 22 awdurdod ym mherfformiad y llynedd ar ailgylchu.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

3. **BLAENRAGLEN WAITH**

Nodi'r Blaenraglen Waith

CADEIRYDD